

ADRODDIAD CYNGHORYDD

Ionawr 2024

COUNCILLOR'S REPORT

January 2024

Llinos Davies



lldavies@sirgar.gov.uk
lldavies@carmarthenshire.gov.uk



Blwyddyn Newydd Dda!

Ward Llannon

Roeddwn yn flin iawn i glywed am farwolaeth sydyn y Cynghorydd Michael Jones. Roedd Mike yn uchel iawn ei barch yn y gymuned ac yn ffrind i bawb. Bydd colled fawr ar ei ôl.

O amgylch y Ward

- ✓ Mae'r gwaith o osod canopi awyr agored newydd yn Ysgol Llannon wedi dechrau.
- ✓ Mae'r gwaith o arwynebu'r ffordd i Llys Ifan wedi ei gwblhau.
- ✓ Cafwyd gwared â nifer o arwyddion anghyfreithlon yn Cross Hands.
- ✓ Mae pont newydd wedi'i gosod ar draws afon Gwendraeth Fawr ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr.

Dolen Teifi

Ar 26^{ain} Ionawr mynychais ddigwyddiad 'Cysylltu Cymunedau Trwy Gludiant Cymunedol' a drefnwyd gan Dolen Teifi. Roeddwn yn falch iawn o glywed am gais llwyddiannus Dolen Teifi am gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin i brynu bws mini newydd ar gyfer ardal Cwm Gwendraeth. Rwy'n siŵr caiff y bws mini cymunedol llawer iawn o ddefnydd.

Bethania, Y Tymbl

Ym mis Rhagfyr ces i'r cyfle i siarad ag aelodau Cymdeithas Diwylliadol, Capel Bethania. Diolch yn fawr am y gwahoddiad ac am y croeso cynnes.

Codi sbwriel gyda 'Cadw'r Mynydd Mawr yn Daclus'

Ar 27^{ain} Ionawr ymunais â gwirfoddolwyr eraill i godi sbwriel o amgylch Cross Hands. Mae **Cadw'r Mynydd Mawr yn Daclus** yn trefnu sesiynau codi sbwriel yn rheolaidd ac mae croeso i bawb. Am ragor o wybodaeth ewch i [Cadw'r Mynydd Mawr yn Daclus / Keep Mynydd Mawr Tidy | Facebook](#)

Hwb Bach y Wlad

Mae 'Hwb Bach y Wlad' yn ymweld â Neuadd y Tymbl a Chlwb a Sefydliad y Gweithwyr, Cross Hands bob pythefnos. Gall ymgynghorydd eich helpu i wneud cais am y cymorth, y gwasanaethau a'r arian y mae gennych hawl iddynt. Am ragor o wybodaeth a dyddiadau ewch i

[Hwb Bach Y Wlad \(llyw.cymru\)](#)



Mae ymholiadau wrth drigolion wedi eu hateb a rhoddyd gwybod i CSG am faterion sydd angen sylw o amgylch y ward.

Dyddiadau cymorthfeydd

1. 22^{ain} Chwefror 2024 18:00-19:00
2. 22^{ain} Mawrth 2024 9:30-10:30
3. 25^{ain} Ebrill 2024 18:30-19:30



Cysylltwch am slot
amser a dolen ymuno

Cyfryngau Cymdeithasol

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth a newyddion ar fy nhudalen facebook

@CyngLlinosDavies



Ward Llannon

Llannon - Y Tymbl - Cross Hands - Cwm-mawr

Os oes gennych gwestiwn i'w ofyn neu unrhyw fater lleol i'w godi,
byddwn yn falch i glywed wrthoch chi. *Llinos*

 01269 842609
 lmdavies@sirgar.gov.uk



Gwybodaeth Gyffredinol

Cyngor Sir Gâr - Cyfarfod Cyngor Llawn (Ionawr 2024)

Mae'r Cyng Glynog Davies, Aelod Cabinet dros Addysg ar Gyngor Sir Caerfyrddin, wedi galw ar y Gweinidog Addysg, Jeremy Miles i sicrhau bod y codiadau cyflog y mae wedi'i ddyfarnu i athrawon yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Rhybudd Gynnig, a gafodd ei roi gerbron y cyngor llawn, yn dweud bod dau godiad cyflog ychwanegol o 1.5% yn golygu bod y cyngor yn gorfod dod o hyd i £3m arall. Meddai'r Cyng Glynog Davies "Dylai Llywodraeth Cymru ariannu'r codiadau cyflog yn llawn er mwyn osgoi rhoi pwysau pellach ar Awdurdodau Lleol a'i sgil effeithiau ar gyllidebau ysgolion, sydd eisoes yn hynod o dynn". Pleidleisiais i dderbyn y cynnig.

Adroddiad Blynyddol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol (2022/23). I ddarllen yr adroddiad, ewch i [Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2022-23 \(llyw.cymru\)](#)

Ymgynghoriad – Dyma'ch cyfle i ddweud eich dweud

Polisi Plant sy'n Codi'n 4 Oed Ysgolion Cynradd 2025/26	yn cau am 12:00 ar 1/3/24	Ymgynghoriad ynghylch Polisi Plant sy'n Codi'n 4 Oed Ysgolion Cynradd 2025/26 (llyw.cymru)
---	---------------------------	--

Grantiau

Gallwch ddod o hyd wybodaeth am y grantiau sydd ar gael i fusnesau yma - [Cyllid \(llyw.cymru\)](#)

Casgliadau bin / ailgylchu

Eisiau gwybod pryd mae eich casgliad bin / ailgylchu nesaf? Cliciwch ar y ddolen isod:

[Ailgylchu / casgliadau biniau \(llyw.cymru\)](#)

Rhoi gwybod i CSG

Defnyddiwch y ddolen isod i roi gwybod am finiau sydd heb eu casglu, goleuadau stryd diffygiol, tipio anghyfreithlon a llawer mwy. [Rhoi gwybod \(llyw.cymru\)](#)

Sbwriel

Cliciwch ar y ddolen isod i roi gwybod i CSG am broblem sbwriel.

[Rhoi gwybod am broblem sbwriel \(llyw.cymru\)](#)

Tipio anghyfreithlon

Mae tipio anghyfreithlon yn dramgwydd troseddol. Os gwelwch chi rywun yn tipio, neu os ydych yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am unrhyw dipio, rhowch wybod i CSG. [Tipio anghyfreithlon \(llyw.cymru\)](#)

Baw ci

Mae baw ci yn broblem ar draws y Ward. Os gwelwch chi rywun sy'n methu â glanhau ar ôl eu ci rhowch wybod i CSG [Baw cŵn \(llyw.cymru\)](#)

Cynllunio

- Mae CSG yn cyhoeddi rhestr wythnosol o bob cais cynllunio yn y sir. Gallwch chwilio am gais gynllunio yma: [Chwilio am gais cynllunio \(llyw.cymru\)](#)
 - I roi gwybod am achos o dorri rheolau cynllunio ewch i: [Rhoi gwybod am achos o dorri rheolau cynllunio - Fy Nghyfrif \(gov.wales\)](#)
-

Hawliwch bopeth

Mae gan CSG dîm o ymgynghorwyr sy'n helpu trigolion wneud cais am y cymorth, y gwasanaethau a'r arian y mae ganddynt hawl iddynt. Am ragor o wybodaeth cliciwch ar y ddolen yma [Hawliwch bopeth \(llyw.cymru\)](#)

Materion plismona

- Gofynnir i drigolion sy'n profi neu'n gweld ymddygiad gwrthgymdeithasol i [roi gwybod i'r heddlu yn syth](#) drwy ffonio 101 neu lenwi'r ffurflen isod [Riportio ymddygiad gwrthgymdeithasol | Heddlu Dyfed-Powys](#).
 - Mae'n bosib riportio troseddau, riportio digwyddiad traffig ar y ffyrdd, darllen y newyddion diweddaraf a mwy ar wefan Heddlu Dyfed Powys - [Tudalen gartref | Heddlu Dyfed-Powys](#)
 - Ymunwch â Llais i gael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan eich tîm plismona lleol - [Llais Community Messaging](#)
-

Happy New Year!

Llannon Ward

I was very sorry to hear of the sudden passing of Councillor Michael Jones. Mike was a highly respected member of our community who always had time for everyone. He will be greatly missed.

Around the Ward

- ✓ The work of installing a new outdoor canopy at Ysgol Llannon has commenced.
 - ✓ The work of surfacing the road to Llys Ifan has been completed.
 - ✓ Several illegal signs in Cross Hands have been removed.
 - ✓ A new bridge has been installed over the Gwendraeth Fawr in Mynydd Mawr Woodland Park.
-

Dolen Teifi

On 26th January, I attended a 'Reconnecting Communities Through Community Transport' event organised by Dolen Teifi. I was very pleased to hear of Dolen Teifi's successful application for funding to buy a new minibus for the Gwendraeth Valley area. I'm sure this new community minibus will get a great deal of use.

Bethania, Tumble

In December, I was invited to speak to the members of 'Cymdeithas Diwylliadol, Capel Bethania'. Thank you for the invitation and the warm welcome.

Litter picking with 'Keep Mynydd Mawr Tidy'

On 27 January I joined other volunteers to litter pick in Cross Hands. **Keep Mynydd Mawr Tidy** organises monthly litter picks around Llannon Ward. All welcome. For more information go to [Cadw'r Mynydd Mawr yn Daclus / Keep Mynydd Mawr Tidy | Facebook](#)

Hwb Bach y Wlad

Hwb Bach y Wlad, visits Tumble Hall and Cross Hands Club and Institute every fortnight. Staff can help you apply for the support, services and money you are entitled to or any other wellbeing services that might help you. For more information and dates go to [Hwb Bach Y Wlad \(gov.wales\)](http://Hwb Bach Y Wlad (gov.wales))



Enquiries from residents have been addressed and several matters have been reported to CCC for attention.

Councillor surgery dates

- | | |
|-----------------------------------|-------------|
| 1. 22 nd February 2024 | 18:00-19:00 |
| 2. 22 nd March 2024 | 9:30-10:30 |
| 3. 25 th April 2024 | 18:30-19:30 |



Get in touch for a time slot and joining link

Social media

You can find more news and information on my facebook page @**CyngLlinosDavies**



Ward Llannon

Llannon - Y Tymbl - Cross Hands - Cwm-mawr

Os oes gennych gwestiwn i'w ofyn neu unrhyw fater lleol i'w godi,
byddwn yn falch i glywed wrthoch chi.

Llinos

☎ 01269 842609

✉ llmdavies@sirgar.gov.uk



General Information

Carmarthenshire County Council – Full Council Meeting (January 2024)

The Cabinet Member for Education on Carmarthenshire County Council has called on Education Minister Jeremy Miles to ensure that the pay uplifts he's awarded to teachers are fully funded by Welsh Government. The Notice of Motion placed before full council stated that two 1.5% pay uplifts have resulted in the council having to find an extra £3m. Cllr Glynog Davies states "*The Welsh Govt should fully fund the pay uplifts in order to avoid putting an additional pressure on Local Authorities and the knock-on impact on school budgets, which are already extremely tight*". I voted in favour of the motion.

Carmarthenshire County Council's Annual Report

Carmarthenshire County Council has published its Annual Report (2022/23). To read the report, go to [Council's Annual Report 2022-23 \(gov.wales\)](#)

Consultation – Have you say

Primary Rising 4s Policy 2025/26	ends at 12:00 on 1/3/24	Primary Rising 4s Policy 2025/26 Consultation (gov.wales)
----------------------------------	-------------------------	---

Grants

Information on the grants available to businesses can be found here - [Funding \(gov.wales\)](#)

Bin / recycling collection

Want to know when is your next bin / recycling collection? Click on link below:

[Recycling / bin collections \(gov.wales\)](#)

Report to CCC

Click on the link below to report missed bin collections, faulty street lights, fly-tipping and more.

[Report \(gov.wales\)](#)

Litter

Click on link to report a litter problem. [Report a litter problem \(gov.wales\)](#)

Fly-tipping

Fly-tipping is a criminal offence. If you see someone fly-tipping, or if you know who's responsible for any fly-tipping, please report to CCC. [Fly tipping \(gov.wales\)](#)

Dog fouling

Dog fouling is a problem across the ward. If you see someone failing to clean up after their dog please report to CCC - [Dog fouling \(gov.wales\)](#)

Planning

- CCC publishes a weekly list of all planning applications registered in the county. To search for a planning application go to: [Search for a planning application \(gov.wales\)](#)
 - Click on the link below to report a breach of planning:
[Report a breach of planning - My Account \(gov.wales\)](#)
-

Claim what's yours

CCC has a dedicated team who assist residents to apply for the support, services and money to which they are entitled. For further information click on the link below:

[Claim what's yours \(gov.wales\)](#)

Policing matters

- Residents who experience or witness antisocial behaviour are asked to report incidents directly to police by phoning 101 or by completing the form below
[Report antisocial behaviour | Dyfed-Powys Police](#)
 - It's possible to report crimes, report a road traffic incident, read the latest news and more on the Dyfed Powys Police website. [Home | Dyfed-Powys Police](#)
 - Sign up to Llais for the latest news and information from your local policing team - [Llais Community Messaging](#)
-